Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**SWYDDOG CODI ARIAN CORFFORAETHOL**
**DISGRIFIAD SWYDD**

**Lleoliad: Gwaith hybrid, gyda chyfleusterau swyddfa ar gael ym Mangor a ger yr Wyddgrug**

**Yn atebol i: Pennaeth Strategaeth a Gweithrediadau**

## PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Cyfrifoldeb cyffredinol am berthynas Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru â busnesau, gan ganolbwyntio ar eu potensial i gyfrannu incwm anghyfyngedig fel sail i'n Strategaeth 2030 sefydliadol: Dod â Natur yn Ôl

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

### Codi arian corfforaethol a rheoli perthnasoedd

- Cynllunio, cydlynu a gweithredu'r holl weithgareddau codi arian sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhwng busnesau ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Gwneud cyfraniad sylweddol at bob agwedd nad yw'n ymwneud â chodi arian ar y perthnasoedd rhwng busnesau ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Nodi a sefydlu cyswllt gyda busnesau nad ydynt wedi cefnogi Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru o'r blaen, gyda'r nod o gynhyrchu incwm drwy godi arian a arweinir gan staff; cymryd rhan yn nigwyddiadau ac ymgyrchoedd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru; nawdd corfforaethol, aelodaeth a rhoddion; a marchnata sy'n gysylltiedig ag achosion
- Rheoli perthnasoedd â chefnogwyr busnes presennol, gan sicrhau bod cefnogwyr yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel – a sicrhau bod modd codi'r swm mwyaf posib o arian ochr yn ochr â'u hymgysylltu a chynyddu'r tebygolrwydd o gadw cefnogwyr neu gefnogaeth eto yn y dyfodol
- Nodi a sefydlu cyswllt sydd wedi dod i ben gyda chefnogwyr busnes, gyda'r nod o sicrhau addewid i gefnogi Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad gan ddarpar gefnogwyr busnes a chefnogwyr busnes presennol, ac ymateb yn briodol
- Rheoli pob agwedd ar gynllun aelodaeth corfforaethol presennol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a'i ddiweddaru i adlewyrchu addasrwydd at y diben yn y dyfodol
- Defnyddio meddalwedd CRM Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i gofnodi'n fanwl gywir yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â rhagolygon corfforaethol a chefnogwyr
- Monitro'r holl incwm a dderbynnir gan fusnesau a sicrhau bod targedau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyrraedd
- Mynd ati'n rhagweithiol i nodi cyfleoedd i ddefnyddio gwirfoddolwyr corfforaethol i gefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gyda ffocws ar ganlyniadau sy'n ymwneud â chodi arian a chadwraeth
- Sicrhau bod pob perthynas â busnesau'n cael ei hasesu gan ddefnyddio fframwaith diwydrwydd dyladwy, gydag adnoddau priodol yn eu lle ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli risg.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**Dyletswyddau cyffredinol**

- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau sy’n gysylltiedig â chodi arian corfforaethol yn y sector elusennol a mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur, gan gynnwys drwy ddefnyddio rhwydweithiau cydweithwyr, cyrff masnach a'r wasg
- Cysylltu â thîm Marchnata a Chyfathrebu Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i sicrhau bod yr holl gyfathrebu sy’n ymwneud â busnes yn gyson â chanllawiau brand a negeseuon
- Cysylltu â staff perthnasol mewn Ymddiriedolaethau Natur eraill i helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer traws-weithio lle bo hynny'n berthnasol
- Arwain ar gyfathrebu ac addysg, yn fewnol ac yn allanol, ar bwysigrwydd perthnasoedd busnes i’r sefydliad
- Siarad ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru mewn digwyddiadau / cyflwyniadau yn ôl yr angen
- Gweithio'n agos gydag aelodau eraill o staff i sicrhau bod perthnasoedd corfforaethol yn gysylltiedig yn agos â meysydd eraill yr elusen.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill. Dylech felly fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae’r holl staff yn llysgenhadon i’r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt ymddwyn yn broffesiynol bob amser. Mae’n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith amgylcheddol gyfeillgar, gosod a chynnal safonau personol uchel o effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o ‘allu gwneud’ yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

# SWYDDOG CODI ARIAN CORFFORAETHOL
# MANYLEB Y PERSON

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Rhinweddau Personol** | | |
| Aelod da o dîm | ✓ | |
| Mynd ati i herio’r status quo i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau, gan chwilio am arfer da | ✓ | |
| Da am ddatrys problemau | ✓ | |
| Ymrwymiad i gadwraeth natur, gwaith ac amcanion mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur a’r rôl rydym yn ei chwarae wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i fyd natur | ✓ | |
| **Cymwyseddau allweddol** | | |
| Deall arian | ✓ | |
| Ffocws ar ganlyniadau | ✓ | |
| Hyderus wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys meithrin perthynas gyflym ag eraill a datrys materion cymhleth yn effeithiol ac yn effeithlon | ✓ | |
| Hunangyfarwyddo; dangos uchelgais a blaengaredd yn gyson | ✓ | |
| Y gallu i amsugno gwybodaeth gymhleth yn gyflym, a'i chyfleu i eraill mewn ffordd gryno a diddorol | ✓ | |
| Y gallu i adnabod a gwireddu cyfleoedd busnes newydd | ✓ | |
| Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan sicrhau bod y naws a'r iaith yn ddifyr ac wedi'u teilwra i'r gynulleidfa | ✓ | |
| Deall TG yn llawn, gan gynnwys pecynnau meddalwedd arbenigol perthnasol yn ddelfrydol | ✓ | |
| Trefnus iawn, gyda dull strwythuredig a rhesymegol o reoli cefnogwyr, rhagolygon a therfynau amser | ✓ | |
| Sgiliau trafod rhagorol; gallu canolbwyntio ar gael yr elw gorau ar fuddsoddiad | ✓ | |
| Meddyliwr dadansoddol a strategol; gallu adnabod tueddiadau a gwneud argymhellion ar gyfer creu mwy o incwm | ✓ | |
| **Profiad o …** | | |
| Gweithio am 2 flynedd o leiaf mewn rôl codi arian corfforaethol neu ddatblygu gwerthiant / busnes | ✓ | |
| Sicrhau rhoddion mawr neu werthiant gwerth uchel gan gwsmeriaid neu gefnogwyr | ✓ | |
| Rheoli cyflenwad o gefnogwyr neu gyflenwad o werthiant, a blaenoriaethu rhagolygon i sicrhau'r elw gorau ar fuddsoddiad | ✓ | |
| Cyflwyno cyflwyniadau cynnig wyneb yn wyneb llwyddiannus ac ysgrifennu cynigion codi arian neu werthiant llwyddiannus | ✓ | |
| Gweithio mewn sefydliad gyda niferoedd uchel o wirfoddolwyr a chreu cynhyrchion i wella codi arian gwirfoddol lleol | | ✓ |
| Cyrraedd targedau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu incwm | ✓ | |
| Datblygu a rheoli perthnasoedd cyfrannu / cwsmer | ✓ | |
| Defnyddio cronfeydd data / meddalwedd CRM i reoli perthnasoedd a chyflenwadau | | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithio ym maes codi arian yn y trydydd sector, gan roi sylw i'w heriau a'i gyfleoedd presennol | | ✓ |
| Datblygu cynhyrchion codi arian, a datblygu syniadau codi arian arloesol ar gyfer cynulleidfaoedd corfforaethol | | ✓ |
| **Gwybodaeth a sgiliau** | | |
| Gradd / Gradd Meistr mewn pwnc perthnasol | | ✓ |
| Cymhwyster academaidd proffesiynol neu achrededig mewn maes perthnasol | | ✓ |
| Aelodaeth o gyrff proffesiynol priodol | | ✓ |
| Gwybodaeth weithredol dda am y sector amgylcheddol yng Nghymru yn gyffredinol | ✓ | |
| Gwybodaeth weithredol dda am ddeddfwriaeth / rheoliadau sy'n berthnasol i'r rôl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arferion codi arian a diogelu data | ✓ | |
| Trwydded yrru lawn yn y DU | ✓ | |
| Y gallu i siarad, darllen, deall ac ysgrifennu yn y Gymraeg | | ✓ |